

Mewnosod rhwyll sling byr drwy doriad unigol er mwyn trin anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen mewn merched

Hydref 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda mae [mewnosod rhwyll sling byr drwy doriad unigol](#) er mwyn trin [anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen](#) mewn merched yn gweithio yn yr hirdymor. Hefyd, mae dystiolaeth ei fod yn achosi cymhlethdodau prin ond difrifol fel poen hirbarhaol, anesmwythder a methiant. Mae'r mewnosodiad rhwyll i fod yn barhaol. Ond, os bydd angen ei dynnu, gall fod yn anodd iawn neu'n amhosib oherwydd y ffordd y caiff ei osod yn ei le. Dylid ond defnyddio'r driniaeth hon os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai esbonio'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau a'r cymhlethdodau posibl. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol mewn rheoli straen anymataliaeth wrinol mewn merched benderfynu pwy ddylai gael cynnig mewnosodiad rhwyll sling byr drwy doriad unigol. Dim ond clinigwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i gyflawni'r driniaeth yn unig ddylai gyflawni'r driniaeth hon. Dim ond pobl sydd ag arbenigedd yn y llawdriniaeth arbenigol hon yn unig ddylai ei dynnu.

Y cyflwr

Anymataliaeth wrinol yn gysylltiedig â straen yw pan fydd wrin yn gollwng ar adegau pan fydd eich pledren dan bwysau, er enghraifft, pan fyddwch yn pesychu neu'n chwerthin, neu yn ystod ymarfer corff. Mae fel arfer yn digwydd oherwydd bod y cyhyrau (fel cyhyrau llawr y pelfis) sy'n atal pasio wrin wedi'u gwanhau neu wedi'u niweidio. Mae triniaeth bresennol yn cynnwys newidiadau i'ch ffordd o fyw fel colli pwysau a hyfforddiant cyhyrau llawr y pelfis. Os na fydd y rhain yn gweithio, gellir ystyried llawdriniaeth fel gosod slingiau neu dapiau (rhwyll) arbennig, neu golpogrogiant drwy lawdriniaeth agored.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio [mewnosod rhwyll sling byr drwy doriad unigol](#) fel opsiwn triniaeth arall.

Gall [NHS Choices](#) a chanllaw NICE ar [reoli anymataliaeth wrinol mewn merched](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Y driniaeth

Nod mewnosod rhwyll sling byr drwy doriad unigol yw lleihau'r risg o wrin yn gollwng mewn merched sy'n dioddef o anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen. Gellir ei ddefnyddio pan nad yw newidiadau i ffordd o fyw wedi gweithio. Y nod yw lleihau'r risg o gymhlethdodau a all ddigwydd gyda rhai triniaethau sling neu dâp oherwydd gall y ffordd y caiff y rhwyll ei osod leihau'r risg o anafiadau i bibellau gwaed neu organau mewnol, a phoen cronig. Mae'r driniaeth yn cynnwys gwneud toriad bach yn y fagina ac yna rhoi dwy sling synthetig fer (8-14 cm o hyd fel arfer) o amgylch yr wrethra (y tiwb sy'n cario'r wrin o'r bledren) i'w chynnal. Mae gan y slingiau angorau ar bob pen i'w dal yn eu lle. Mae modd cyflawni'r driniaeth o dan anesthetig lleol, heb neu ar ôl lonyddu'r claf, neu o dan anesthetig lleol neu gyffredinol. Mae'r slingiau i fod yn barhaol.

Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd nad oedd digon o dystiolaeth hirdymor i gefnogi argymell defnyddio mewnosod rhwyll sling drwy doriad unigol fel mater o drefn er mwyn trin anymataliaeth wrinol sy'n

gysylltiedig â straen mewn merched. Roedd y 12 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 8,971 o ferched.

Yn gyffredinol, dangosodd yr astudiaethau fod y driniaeth hon yn debyg i fathau eraill o driniaethau sling a thâp o ran lleihau anymataliaeth yn y byrdymor, a bod iddi'r manteision canlynol:

- defnyddio llai o bediau anymataliaeth bob dydd
- gwelliant mewn symptomau anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen
- llai o angen meddyginiaethau ar gyfer anymataliaeth 12 mis ar ôl y driniaeth
- aildechrau gweithgareddau arferol a gweithio yn gynt na merched a gafodd driniaethau gwahanol
- ansawdd bywyd gwell.

Dangosodd yr astudiaethau fod risgiau mewnosod rhwyll sling byr drwy doriad unigol yn cynnwys:

- poen, yn cynnwys poen yn y werddyr, ond yn llai aml na gyda thriniaethau eraill
- gwaedu yn ystod y driniaeth, gyda chleisio yn y pelfis mewn un ferch
- erydu, sef pan fydd y rhwyll yn gwisgo drwy feinwe'r corff nes ei fod yn ymddangos drwy wal y fagina neu, yn llai cyffredin, drwy wal yr wrethra, y bledren neu'r coluddyn; yn aml roedd angen llawdriniaeth
- symptomau pledren orweithgar, ac anhawster neu boen wrth basio wrin
- niwed i'r bledren neu'r fagina yn ystod llawdriniaeth
- heintiau yn y llwybr wrinol.

Dim ond mewn nifer bychan o gleifion yn unig (rhwng tua 1% a 3%) y gwelwyd y risgiau hyn. Hefyd, derbyniodd NICE 22 o holiaduron gan ferched a gafodd y driniaeth (y rhan fwyaf o fewn dwy flynedd). Nododd 19 ganlyniadau cadarnhaol ar ansawdd bywyd ond roedd chwech yn dal i gael rhywfaint o ollwng. Aeth dwy ferch ymlaen i gael triniaeth arall.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y [canllaw](#). Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Pa mor hawdd yw tynnu'r rhwyll os aiff pethau o le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae [canllawiau ymyriadau](#) NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-2135-5